**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/RE/3604/22

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

02 Rhagfyr 2022

Annwyl Mark,

Diolch am yr adroddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Caffael.

Rwy'n ystyried y pum argymhelliad a nodir yn eich adroddiad a byddaf yn rhoi ymateb mwy sylweddol yn fuan. Yn y cyfamser, hoffwn ailddatgan ein safbwynt ynghylch Argymhelliad 1, a fynegwyd wrth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder, a Chyfansoddiad yn fy ymateb iddynt ar 14 Tachwedd, fel a ganlyn:

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell y dylid hefyd geisio cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 114 a 116, a dylai unrhyw femoranda yn y dyfodol mewn perthynas â’r Bil eu nodi’n unol â hynny

Nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.

Nid wyf yn cytuno â'r casgliad y byddai cymalau 114 a 116 o'r Bil yn gyfystyr â darpariaeth berthnasol at ddibenion Rheol Sefydlog 29.

Mae'r cymalau hyn yn ddarpariaethau technegol sy'n ymwneud â sut mae'r Bil yn gweithio yn hytrach nag yn ddarpariaethau o sylwedd, ac nid ydym ar y cyfan yn cynnwys cymalau anweithredol mewn Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

Byddwn yn anfon ymatebion llawn maes o law i’r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad. Mae croeso i chi gysylltu â mi os oes angen unrhyw beth pellach arnoch.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.